**ADRODDIAD PWYLLGOR CRAFFU**

**DAL CYNNYDD AC EFFAITH - YMWELIAD GWAELODLIN HYDREF 2021**

Er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith o ddiffinio a chynllunio rhaglen gymorth fydd yn caniatau i ni gwrdd â'r disgwyliadau system sydd wedi'u pennu ar gyfer 2024, ynghyd â'r cerrig milltir penodedig ar hyd y daith, byddwn yn gweithio'n agos hefo ysgolion dros yr hanner tymor agoriadol i ddal cynnydd ac effaith y gweithredu sydd wedi bod hyd yma ac i sicrhau bod cynllun gwella priodol yn ei le ar gyfer pob sefydliad..

Bydd yr ymweliadau yn adeiladu ymhellach ar y gefnogaeth gyflwynwyd cyn yr haf wrth i ysgolion fynd ati i adnabod llwyddiannau ac agweddau oedd angen sylw pellach.

Yn ein hymwneud hefo arweinwyr ar draws yr ysgol byddwn yn saernio ffocws y trafodaethau ar flaenoriaethau'r ysgol a'r clwstwr wrth iddyn nhw baratoi ar gyfer cyflwyno Cwricwlwm i Gymru. Rhydd hynny gyfle i drafod a gwirio cynlluniau cychwynnol ar gyfer dylunio'r cwricwlwm, bwriadau o ran parhau i wella pedagogiaeth, blaenoriaethau trawsnewid ADY ynghyd â sut y gall cyd-atebolrwydd ddatblygu oddi fewn i fodel cydweithio clwstwr.

Bydd cyfle yma hefyd i weld sut mae ysgolion wedi ymgysylltu ymhellach hefo'r arweiniad a'r deunyddiau cefnogol sydd wedi eu rhannu hefo nhw gan GwE trwy'r gweithdai hyfforddi ac i weld sut maen nhw'n ymgysylltu ac yn ymroi i waith y rhwydweithiau rhanbarthol a lleol sydd yn weithredol ar draws y MDaPh ac ym meysydd dylunio'r cwricwlwm ac asesu.

Trwy wneud hyn byddwn mewn sefyllfa aeddfetach i sicrhau fod cefnogaeth addas a phriodol ar waith ar lefel ysgol, clwstwr ac awdurdod, boed hynny trwy raglenni dysgu proffesiynol, trwy gyfrwng yr amryfal fforymau a rhywdweithiau neu drwy gynlluniau cymorth penodol. Caiff yr ymweliadau eu defnyddio hefyd i gynaeafu gwybodaeth am yr arfer da sy'n datblygu ac sydd angen ei ddathlu a'i rannu'n ehangach.

Man cychwyn pob trafodaeth fydd arfarniad ac adnabyddiaeth yr ysgol ei hun o'r hyn sydd wedi bod yn llwyddiannus, ynghyd â'r hyn y maent wedi'i adnabod fel yr agweddau sydd yn parhau i fod angen sylw. Bydd yr ymgysylltu a'r trafodaethau yn digwydd dros gyfres o ymweliadau ac yn cael ei weld fel rhan o broses yn hytrach na chyffyrddiad gloyn byw seiliedig ar un ymweliad yn unig. Nid proses o 'wneud rhywbeth' i ysgol fydd hon chwaith ond yn hytrach ymarfer diagnostig o arfarnu, adnabod a chynllunio fydd yn cael ei gynnal ar y cyd hefo'r

arweinwyr. Mae'n ymwneud â 'chyfoethogi ansawdd' yn hytrach na 'sicrhau ansawdd'. Caiff yr ymagwedd yma at y gwaith ei groesawu yn fawr gan benaethiaid ysgolion.

Yn y cynradd byddwn hefyd yn defnyddio'r ymgysylltu i wirio sut mae'r ysgolion yn dal a mesur cynnydd mewn meysydd megis llythrennedd, rhifedd, sgiliau sylfaenol, lles, a chefnogaeth i ddysgwyr sy'n fregus i ddysgu.

Yn ein hymwneud hefo'r uwchradd, bydd ffocws ychwanegol ar weld be mae gwerthusiad yr ysgol o asesiadau canolfan 2021 yn ei ddweud. Yn ei ddatganiad ysgrifenedig (dyddiedig 21 Mehefin 2021) cadarnhaodd y Gweinidog Addysg:

*'y bydd y penderfyniad i atal mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 a'r chweched dosbarth yn ymestyn i flwyddyn academaidd 2021/22. Ni fydd data dyfarniadau cymwysterau yn cael ei ddefnyddio i adrodd ar ddeilliannau cyrhaeddiad ar lefel ysgol, awdurdod lleol na chonsortiwm rhanbarthol ac ni ddylid ei ddefnyddio i ddwyn ysgolion i gyfrif am ddeilliannau dysgwyr.'*

Fodd bynnag, amlygodd hefyd y bydd yn ofynnol i bob ysgol ddefnyddio'r ystod wybodaeth sydd ar gael o brosesau eleni i gynnal hunanwerthusiad ac i nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella.

Byddwn felly yn defnyddio'r wybodaeth sydd gan ysgol am gyrhaeddiad ar lefel disgybl i ysgogi trafodaethau am ganlyniadau TGAU a Lefel A eleni. Gall y trafodaethau hynny gael eu sbarduno gan ymholiadau megis:

- pa dystiolaeth o ddysgu ac addysgu llynedd sydd yn dilysu eich graddau canolfan?
- pa wersi a ddysgwyd am wydnwch gweithdrefnau safoni a chymedroli yn yr ysgol? I ba raddau y bydd prosesau'n cael eu mireinio ymhellach?
- pa mor hyderus yw'r ysgol bod pob adran wedi nodi eu blaenoriaethau gweithredu 2021-22 yn gadarn ac yn bwrpasol? Pa gynlluniau sydd wedi'u mabwysiadu i gefnogi arweinwyr pwnc gyda'r gwaith hwn os oes rhai pryderon wedi codi?
- beth sydd wedi ei adnabod fel meysydd cryfderau allweddol? Pa gynlluniau sydd wedi'u mabwysiadu i rannu'r rhain ar draws yr ysgol?
- a oes unrhyw feysydd / pynciau lle mae angen mireinio cywirdeb gwaith tracio ac asesu? Pa gynlluniau sydd wedi'u mabwysiadu i gefnogi arweinwyr pwnc / athrawon gyda'r gwaith fel y gellir rhoi sylw effeithiol i leihau amrywiant yn yr ysgol?
- pa gynlluniau sydd i hybu cefnogaeth bellach i grwpiau bregus o ddisgyblion, gan gynnwys dysgwyr PYD?

- pa gynlluniau sydd ar waith i weithio ar y cyd ag ysgolion rhanbarthol eraill i gefnogi a chynorthwyo gwelliannau pellach? I ba raddau y bydd cydweithredu yn cynnwys cyfraniad arweinwyr canol a staff addysgu